# tafod elái

Gorffennaf 2021

Rhif 359

Pris £1


## Banc Lleol Arall yn Cau




Mae Banc Lloyds wedi cyhoeddi bod eu cangen yn Pentre'r Eglwys ymhlith 44 o ganghennau fydd yn cau eleni. Mae'r gwasanaeth ym Mhente'r Eglwys wedi bod yn hanfodol i drigolion, busnesau a chymdeithasau yr ardal a bydd angen teithio i Bontypridd neu Bontyclun yn y dyfodol.

## Dymchwel



Mae canol Pontypridd yn newid wrth i ganolfan Bingo ac Angharad's ger yr orsaf gael ei ddymchwel. Daeth seddi cyfforddus y neuadd i'r golwg wrth i'r waliau ddisgyn.

## Llwyddiant yn Eisteddfod T

Er na chynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd arferol eleni cafwyd cystadlu brwd yn yr Eisteddfod T dros gyfnod y Sulgwyn. Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal gymerodd ran.



Dawns Gyfoes Unigol Bl.6 ac iau. Ail: Mia Thomas, Ysgol Gynradd Dolau



Unawd Offerynnol Bl.7, 8 a 9 Cyntaf: Erin Fflur Jardine, Ysgol Gyfun Plasmawr



Nofio Cydamserol. Ail: Gwenno a Lowri, Ysgol Llanhari





Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl.7 a dan 25 oed. Cyntaf: Daniel Calan Jones Adran Bro Taf. Trydydd: Morus Jones Adran Bro Taf

Prif Lenor Eisteddfod T. Ail: Huw Griffiths, Ysgol Garth Olwg Llefaru Bl.10 a dan 25 oed. Ail: Huw Griffiths, Ysgol Garth Olwg



Dawns Werin neu Stepio i Grŵp dan 25. Cyntaf: Morus a Daniel, Adran Bro Taf



Tric Hud a Lledrith, Trydydd: Aaron Owen-Griffiths, Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth



Canu Sianti Forwrol Gymreig. Cyntaf: Iestyn Gwyn Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Medi
i gyrraedd erbyn
31 Gorffennaf 2021

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
**http://www.tafodelai.cymru**

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

**Andrew Reeves**

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno



## Ysgol Pont-Sion-Norton

**Recordio**
Mae prysurdeb mawr wedi bod ar draws yr ysgol wrth baratoi ar gyfer penblwydd mawr yr Ysgol ym mis Hydref- 70 mlwydd oed!! Cafwyd cystadleuaeth dylunio logo penblwydd, paratoi sgript ar gyfer sioe dathlu ac yna ffilmio eitem pob dosbarth a recordio'r canu. Rydym yn edrych ymlaen at weld y darn gorffenedig. Diolch i bawb am eu gwaith caled.

**Murlun**
Fel rhan o ddathliadau penblwydd yr Ysgol, bydd yr artist lleol Gemma Fala yn creu murlun arbennig i ni. Mae'r plant wedi bod yn casglu a dylunio syniadau i'w cynnwys yn y murlun yn ystod diwrnod creadigol a bu'r Cyngor Ysgol yn trafod yr holl syniadau gyda Gemma. Rydym yn edrych ymlaen at y gwaith gorffenedig!



**Ardal tu allan**
Rydym wedi cael llawer o hwyl yn datblygu ein hardal tu allan fel rhan o brosiect Partneriaeth Adfywio Ynysybwl dros yr wythnosau diwethaf! Da iawn chi'r Cyngor Eco- mae'n edrych yn wych!



**Blwyddyn 6**
Diolch i Mr Coleman am ddod i siarad gyda blwyddyn 6 wrth iddynt baratoi i symud ymlaen i Ysgol Garth Olwg. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn. Bu blwyddyn 6 hefyd yn ymweld ag Ysgol Garth Olwg ar gyfer sesiynnau pontio- roedd pawb wrth eu boddau ac maent yn edrych ymlaen at fis Medi yn awr.

**Coch**
Gwisgodd pawb coch i'r ysgol yn ddiweddar er mwyn codi arian ar gyfer Gwisgo Coch i Felindre. Diolch i bawb am gefnogi'r achos.

## At y Golygydd:


Braint oedd gweld fy enw yn un o'r 86 o enwogion, siaradwyr Cylch Cadwgan, Capel Tabernacl, Efail Isaf. Fy nhestyn oedd "Hanes Merlod a Chobiau Cymreig". Mae rhyw ddeg a'r hugain o ferlod yma yn Fferm Ceulan, Meisgyn yn cynnwys saith o ebolion eleni.

Ar 17 Mehefin ganed fy ail or-wyres Emilia Ruth Withers yn Wolverhampton; ail wyres i David (Rhydfelen) sydd wedi ymddeol fel Pennaeth Colegau Amaethyddol Gelli Aur a Pibwrlwyd, Caerfyrddin.


Trist oedd darllen yn Rhif 357 am farwolaeth Hilary Lewis. Pan oeddwn yn Athro Cemeg yn Ysgol Bechgyn y Porth yn 1957 roeddwn yn aelod o Barti Noson Lawen, Sardis gyda Hilary a'r Parchedig Hywel Lewis a threilio sawl noson hapus gyda chyngherddau yn yr ardal, Hywel ar y piano a finnau a cherdd dant i hunan gyfeiliant ar y delyn.

Wynne Davies, Meisgyn

## Llyfrau'r Haf




**Ryc**
Lleucu Fflur Jones
Mae noson o hwyl ddiniwed yr olwg mewn clwb rygbi yn troi'n hunllef. A ddaw'r gwir i'r wyneb?
9781912173358 Gwasg y Bwthyn




**Ceiliog Dandi**
Daniel Davies
Nofel sy'n rhoi golwg ddychanol ar fywyd y cymeriad lliwgar o'r Oesoedd Canol, Dafydd ap Gwilym.
9781845277444 Carreg Gwalch

## Menter Caerdydd Hwyl yr Haf

Rydym mor falch o allu cynnig ein cynlluniau gofal gydol dydd (8:30yb-5:30yh) a chroesawu'r plant i'n safleoedd yn ysgolion Treganna (20 Gorffennaf hyd 20 Awst) a Melin Gruffydd (21 Gorffennaf hyd 20 Awst) dros y gwyliau (£25 y dydd).

Bydd ein cynlluniau chwarae agored 'Bwrlwm', hefyd yn rhedeg dros yr haf i blant Dosbarth Derbyn hyd Flwyddyn 6. Byddwn ni'n cynnal sesiynau ar draws y brifddinas o ddydd Llun, 26 Gorffennaf am 3 wythnos; 4 diwrnod yr wythnos (Llun-Iau). Ar yr un dyddiadau yn y Fro, bydd 'Bwrlwm' yn symud o le i le gyda'r lleoliadau'n cynnwys Penarth, Y Barri a Llanilltud Fawr. Cofiwch fod sesiynau 'Bwrlwm' am ddim ond rhaid bwcio o flaen llaw.

I'r rhai yn eu harddegau a hŷn, mae llu o weithgareddau difyr ar y gweill gan gynnwys sesiwn Arlunio Blodau Gwyllt gydag Efa Lois (darlunydd swyddogol Tafwyl) ddydd Sadwrn, 10 Gorffennaf a chwrs Animeiddio, 4 wythnos o hyd, yn dechrau ddydd Iau, 22 Gorffennaf.

Cynhelir nifer o sesiynau diddorol i'r oedolion hefyd. Yn dilyn llwyddiant ein taith gerdded yn y Bont-faen, bydd cyfle i fynd am dro ar hyd yr arfordir yn ardal Llanilltud Fawr ar ddydd Mawrth, 20 Gorffennaf - a threfnir taith arall ddydd Iau, 19 Awst.

Bydd Alun Rhys Chivers yn trafod criced nos Fercher, 21 Gorffennaf am 7:30 yng nghwmni tri arbenigwr, Edward Bevan, Gareth Lanagan a Jeff Evans. Nos Iau, 22 Gorffennaf, Non Vaughan Williams o Brifysgol Abertawe fydd yn cyflwyno Sgwrs y Mis gan fwrw golwg yn ôl ar y gyfres deledu, 'Heddiw'.

Cofiwch hefyd am ein gwersi ffitrwydd newydd i'r rhai dros 75 oed, mewn partneriaeth â Re-engage Cymru. Anna Reich fydd yn arwain y sesiynau, yn y ganolfan chwaraeon yng Ngerddi Soffia bob bore Gwener ola'r mis.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan - mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol.
Neu cysylltwch: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888.




## Crotesi Creigiau a'r Cylch

Prynhawn wrth ein bodd yn cael te prynhawn yn Waunwyllt oedd uchafbwynt ein blwyddyn eleni. Roedd hi mor braf cael gweld pawb yn y cnawd unwaith eto a cawsom dywydd delfrydol. Tywyswyd ni o amgylch yr ardd gan John cyn mwynhau danteithion anhygoel gan Richard. Diolch yn fawr iawn i'r ddau am brynhawn delfrydol yn ymlacio a sgwrsio mewn amgylchedd hamddennol ar stepen ein drws. Roedd yr ardd yn werth ei gweld a'r planhigion yn drawiadol - o na fydde modd cael coffi a chacen yno eto cyn hir?



## IESTYN MEWN DU A GWYN

### Mewn Geiriau

Oes wir modd crynhoi unigolyn mewn geiriau? Ar ffurf syml! Honni bod bywyd mor ddu a gwyn a hynny! Gallu torri bywyd 24 awr ddyddiol mewn i linell neu ddau? Neu dri? Neu baragraff? Neu golofn mewn papur lleol?

Disgrifiwch eich hun mewn un gair? Mae'n anodd meddwl lle i ddechrau wrth feddwl am air cyfwerth cyflawn. Oes yna un gair sydd wir yn gynrychioliad ohona i? O bob agwedd ohona i? Dim rhyfedd ei bod hi'n gwestiwn syml sydd mor anodd ateb. Achos erbyn hyn, dydyn ni ddim yn gweld y byd yn ddu a gwyn. Ni'n gweld haenau o wahanol nodweddion a digwyddiadau sy'n cyfrannu at ein barn.

Mae pob eiliad yn cyfrannu ato. Felly, Gwnewch y mwyaf ohono fe! Gwnewch y mwyaf o bob eiliad gan fod cymaint fwy o amser gyda ni na fyddech chi'n meddwl. Mae un peth bach yn gallu un ai cyfrannu cymaint at ein bywydau ni neu dim o gwbl. Dyna yw'r siom fwyaf! Peidio gwybod. Peidio gwybod os yw'r gweithredoedd am ein amlygu ni neu am ein torri i lawr.

Dwi'n aml yn meddwl bod dim ots beth dwi'n ei wneud a beth dwi'n cyflawni achos dyw hynny ddim yn mynd i newid beth mae pobl yn meddwl ohona i. Achos mae dy enw yn cario cymaint llai na pwy wyt ti. Mae'n cario barn eraill andana ti a safon ti 'di gosod i dy hun.

Felly bydda'n ofalus o hyn a phaid gadael iddo dy lethu di. A phaid gadael i neb arall neud hynny i ti chwaith!

## GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol: Dawn Walters*

**Cyngor Cymuned**
Mae'r Cyngor Cymuned yn brysur yn trefnu diwrnod Ras Coedwigol Blynyddol ynghyd â diwrnod llawn hwyl a sbri ar ddydd Mercher 25 Awst 10yb-2yp ar Barc y Welfare Evanstown gyda'r ras yn cychwyn am 11 ar gyfer oedrannau dan 7, 11 ac 16. Fe fydd nifer o weithgareddau ar gael ar y diwrnod yn cynnwys ardal chwaraeon gyda thîm rygbi'r Gweilch ac mae popeth yn rhad ac am ddim ar gyfer y plant. Fe fydd y diwrnod yn mynd yn ei blaen os nad oes unrhyw newidiadau gan Lywodraeth Cymru i'r rheolau presennol ar gyfer adloniant awyr agored.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Llun - llawn llawenydd!**
Llongyfarchiadau mawr Rhiannon a Matt ar eich priodas yn ddiweddar! Priodwyd Rhiannon - merch Linda a John, Capel Llanillteyrn - a Matthew Ball, o Feisgyn, ar y trydydd o Fehefin yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Cynhaliwyd te prynhawn yng Ngwesty'r Parc i'r ddau deulu, ac fe gafwyd diwrnod arbennig o braf a llawen! Fel y tystia'r llun! Athrawes yw Rhiannon yn Ysgol Uwchradd Cwm Rhymni ac mae busnes Trefnu Angladdau gyda Matt. Maent wedi ymgartrefu yn Llantrisant. Pob bendith eich dau a diolch am rannu eich diwrnod arbennig gyda ni!



**Gwellhad llwyr a buan i . . .**
. . . Margaret Oehler. Deall eich bod wedi cael cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, Margaret ac wedi derbyn llawdriniaeth. Deall hefyd eich bod yn gwella'n dda. Anfonwn ein cofion atoch!

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Mari a Wyn Jones a'r plantos, Llew ac Efa. Ar ôl gwaeledd cymharol fyr bu farw yr Athro Dennis Thomas, yn dawel yn ei gartref yn Aberystwyth ddiwedd mis Mai. Tad Mari, Gareth a Siân a gŵr Barbara. Roedd Dennis Thomas yn Athro Emeritws yn yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn anfon cwtsh cynnes.

**Croeso i'r byd Alaw Rhiannon!**
Bob amser yn braf cael croesawu babi bach newydd i'r byd! Dim ond mis dwetha ron ni'n estyn croeso i Emyr a Hannah, a'r bychan Idris i'w cartref



newydd yn Creigiau. Wel, bellach mae 'na un fach newydd ar yr aelwyd! Cafodd Alaw Rhiannon John ei geni am 12.55 yr hwyr ar Mehefin 16eg yn pwyso 9 pwys 2 owns! Mae Hannah ac Alaw yn hapus ac yn iach, ac Idris yn frawd mawr balch! Ac Emyr yntau yn Dad balch yn ogystal! Llongyfarchiadau mawr i chi!

**Gerddi Agored Creigiau**
Sul y Tadau, Mehefin 20fed - fe gadwodd hi'n sych a braf serch rhagolygon go amheus! O'r herwydd daeth dros 200 o bobol i ymweld â'r ddwy ardd fendigedig oedd yn estyn croeso eleni. Les, ar Maes y Nant a John a Richard ar Heol Pantygored oedd wedi bod yn gweithio'n ddiflino i ddarparu sioe anhygoel eleni eto. Un gardd ddim yn cynnig digon o sialens i John a Richard - bellach maent yn tendio DWY! Ac am brofiad yw dilyn y llwybrau bach troellog, artistig i'r gwahanol lecynnau hardd. Llwyni, blodau, llysiau, ffrwythau, coed - mawr a bach, pyllau hudolus, y tŷ gwydr a'r tŷ bach twt chwaethus! Sdim rhyfedd bod pobol yn dal i fwynhau ymweld â'r gerddi yma er mwyn caffael ysbrydoliaeth a syniadau, a thawelwch meddwl! Diolch am y croeso!





## Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Hwyl fawr**
Hoffem ddiolch yn fawr a ffarwelio â'r tri darpar athro sydd wedi bod ar brofiad dysgu yn ein hysgol ers mis Mawrth. Dymuniadau gorau i Mr Roberts, Mr Jones a Miss Melhuish yn y dyfodol. Fe fydd Mr Roberts yn dysgu yn Ysgol Sant Baruc a Mr Jones yn Ysgol Pont Sion Norton ym mis Medi.

**Arweinwyr Digidol yn arwain y ffordd**
Diolch i'n harweinwyr digidol am greu fideo gwych yn ein hatgoffa sut i gadw'n ddiogel ar lein. Mae disgyblion a rheini'r ysgol wedi dysgu sawl peth pwysig wrth wylio'r fideo a byddwn i gyd yn dilyn y rheolau er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

**Cystadleuaeth Clwb y Bont**
Cafwyd darnau o gelf a cherddi campus i'w cyflwyno i feirniaid y gystadleuaeth hon. Cystadleuaeth i'r clwstwr cyfan yw hon ac fe fydd y campweithiau buddugol yn cael eu cyflwyno i Glwb y Bont i'w harddangos. Edrychwn ymlaen at eu gweld yno pan fydd y clwb yn ailagor.

**Ymweliad Mr Coleman**
Roedd yn braf croesawu Mr Coleman yn ôl atom unwaith eto, Fe ddaeth i gynnal gwasanaeth gyda Blwyddyn 6 cyn iddynt adael Ysgol Evan James.

**Croeso cynnes yn Heol Sardis**
Mwynheuodd Dosbarth Elin Fflur eu bore yn Heol Sardis fel rhan o'u gwaith "Ein Milltir Sgwâr". Dysgodd y plant gymaint am hanes y clwb rygbi enwog a'r uchafbwynt oedd cael mynd i'r eisteddle a'r ystafelloedd newid.

**Gardd fendigedig**
Mae gardd newydd sbon gennym yn yr ysgol sy'n llawn planhigion hardd. Mae'r cyngor eco a'r senedd wedi cydweithio i greu'r ardd ac mae pob dosbarth wedi plannu planhigyn yno. Dewisodd rhai dosbarthiadau blannu planhigion fyddai'n denu gwenyn a dewisodd dosbarthiadau eraill blannu llysiau a choed ffrwythau. Mae'n edrych yn wych.



# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Rhodd arbennig**
Llongyfarchiadau i Lleucu, merch Lowri Mared a Marc Real, Heatherview Road, Pontypridd. Fe benderfynodd dorri ei gwallt hir a'i rhoi i'r Princess Trust.Maen nhw'n defnyddio'r gwallt i wneud gwallt gosod i blant â chanser. Mae hi wedi codi dros £400.Mae Lleucu, sy'n 7 oed, yn ddisgybl yn Ysgol Pont Siôn Norton.

Ardderchog Lleucu!



**Croeso**
Pob dymuniad da i Mair a Drew, Hillside View, Graigwen wrth iddynt groesawu Jenson a'i chwaer Ciara yn aelodau o'u teulu. Pob hapusrwydd iddynt wrth ddechrau cyfnod arbennig.

**A ffarwelio**
Fe fydd Ieuan a Jo Morris yn gadel Pontypridd cyn bo hir ar ôl treulio cyfnod hir yn byw yn Heol Tyfica. Byddant yn Solfa am ychydig cyn ymgartrefu yn eu tŷ newydd ym Mharc Nant Celyn, Efail Isaf. Pob dymuniad da. Llongyfarchiadau i Ieuan wrth i'w lyfr 'Photographing Pembrokeshire' ymddangos yn ddiweddar. Yn ôl y broliant 'Taith ddiddorol trwy rai o'r llefydd yn Sir Benfro a gysylltir a môr-ladron, smyglwyr a llongddryllwyr. Yn llawn ffotograffau hyfryd.'

Cyhoeddwyd gan Y Lolfa am £9.99

**Menter newydd**
Braf cael cyhoeddi dyfodiad siop newydd yn y dre. Agorwyd Storyville Books ddydd Sadwrn 19eg o Fehefin gydag awduron lleol yn llofnodi eu llyfrau. Mae'r siop wedi'i lleoli yn Mill Street (hen siop fwydydd iach Pete). Y perchnogion yw Cerith Mathias o Fedwas a Jeff Baxter, sy'n wreiddiol o





Cerith Mathias yn y siop

Plymouth. Nhw sy'n rhedeg Gŵyl Lyfrau Plant Pontypridd. Buodd Cerith, sy'n siarad Cymraeg, yn gweithio fel cynhyrchydd gyda'r BBC. Maent yn gwerthu llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion yn ogystal a chyfrolau yn Saesneg gan awduron o Gymru. Mae'r siop ar agor Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn o 10.a.m tan 4.00 p.m.

Am ymholiadau ffoniwch 01443 520740

**Merched y Wawr**
I orffen y flwyddyn fe fydd y gangen yn cwrdd ym Mharc Ynysangharad, pnawn Iau, Gorff. 8fed am 2.00 ar bwys y 'bandstand' am wâc, clonc a disgled!
Fe fydd y tymor newydd yn dechre nos Iau, Medi'r 9fed am 7.00. Falle ar zoom neu hyd yn oed cwrdd yn y cnawd os yn bosib!

**Clwb llyfrau**
Byddwn yn cwrdd nos Lun Gorffennaf 12fed am 7.00 p.m. ar zoom.

**Ar grwydr**
Pob llwyddiant i Huw Blainey sy 'n perfformio gyda Chwmni Arad Goch yn y cynhyrchiad awyr agored 'Clera'. Byddan nhw'n crwydro Ceredigion gyda 'Clera' sy'n gymysgedd o arddullie – straeon, barddoniaeth, dawnsio a cherddoriaeth ac yn perfformio tu allan mewn trefi a phentrefi.




Llun Clera o'r cylchgrawn Golwg

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daeth rhifyn Gwanwyn 2021 o'r cylchgrawn Advances i'm cartref yn ddiweddar. Pob clod i Lywodraeth Cymru am ddarparu'r arlwy dwyieithog a lliwgar hwn o newyddion am ymchwil a datblygiadau gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg mewn sefydliadau ar draws Cymru, yn brifysgolion a diwydiannau. Mae'r diwyg yn ddeniadol a'r cyfraniadau yn cynnwys digon i godi blas heb orlwytho, gyda manylion cyswllt i ddarllenwyr sydd am wybod mwy. Mae'r cyfan ar-lein neu mewn copi caled, yn rhad ac am ddim. Ewch a phrofwch. Ymhlith y cyfraniadau y tro hwn ceir cyfeiriad at Dadwneud niwed methiant y galon, Gwella effeithlonrwydd ynni wrth gynhyrchu sment, Cynnydd wrth ddatblygu ceirch iach sy'n gwrthsefyll yr hinsawdd.

Da deall bod cynlluniau ar y gweill i gynnal Yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhithiol fel y llynedd a bod darpariaeth y Babell Wyddoniaeth yn eu plith, dan ofal Elin Rhys. Deallaf fod y ddapariaeth yn cynnwys eitemau i gydnabod 'cewri' gwyddoniaeth Cymru a gollwyd o'n plith yn y flwyddyn, yn nodedig Syr John Meurig Thomas a'r Athro Glyn O. Phillips.

Ers blynyddoedd rwyf wedi bod yn argyhoeddedig bod elfen o annibendod yn iachus wrth ystyried silffoedd llyfrau; o'i dacluso daw ambell drysor coll i'r golwg. Dyna fu fy hanes yn ddiweddar wrth geisio chwynnu rhifynnau Physics World, cylchgrawn misol y Sefydliad Ffiseg (Institute of Physics); rhifynnau'r flwyddyn 2019 a ddenodd fy sylw. Roedd rhifyn Ebrill yn cynnwys teyrnged i'r ffisegydd Zhores Alferov, arloeswr laser; enillodd Wobr Nobel am ei waith. Yn rhifyn Mehefin ceir llythyr gan Yr Athro Alan Shore, Prifysgol Bangor, yntau yn arbenigwr yn yr un maes. Yn y llythyr mae Alan Shore yn dwyn i gof fod Dr Ben Thomas (Caerdydd) wedi arloesi yn y maes newydd a'i fod wedi gweithio gydag Alferov yn Leningrad. Sonnir bod Alferov yn ddiweddarach wedi ymweld â Dr Thomas yng Nghaerdydd, gan fynegi awydd i nofio yn y môr; trefwyd ymweliad i Benarth.

Bydd aelodau ein Cymdeithas yn cofio'n annwyl a diolchgar am Ben, a gollwyd o'n plith yn rhy gynnar o lawer. Bu'n ddiwyd iawn ei wasanaeth yn yr ymdrechion i sefydlu a sefydlogi ein Cymdeithas ac achos ehangach y defnydd o'r Gymraeg mewn gwyddoniaeth. Tybed a oes rhywun yn dal cysylltiad gyda theulu Ben? Eglwys Dewi Sant efallai? Byddwn yn hapus i drosglwyddo llythyr Alan Shore i'w gofal.

Neville Evans

# Ysgol Tonyrefail

**Llwyddiant Cenedlaethol**
Llongyfarchiadau mawr i ddosbarth Blwyddyn 4 a 5 am ddod yn ail drwy Gymru am eu gwaith Prosiect Bylbiau'r Gwanwyn dan oruchwyliaeth Amgueddfa Cymru. Enillodd y dosbarth dalebau canolfan arddio gwerth £40 fydd yn cael eu gwario gan y Cyngor Eco.

**Hyfforddiant Achub Bywyd**
Diolch yn fawr i P.C.Davies, sydd yn un o lywodraethwyr yr ysgol am ateb cais Blwyddyn 6 i ddod i roi hyfforddiant iddynt ar sut i ddefnyddio offer achub bywyd yn gywir. Roedd y plant yn awyddus i dderbyn yr hyfforddiant yn sgil yr hyn a ddigwyddodd i Christian Eriksen yng nghystadleuaeth yr Euros yn ddiweddar. Rydym yn hynod ffodus fod diffibileiddiwr ar safle'r ysgol.

**Gweithdy Trosglwyddo**
Roedd blwyddyn 6 wedi mwynhau yn arw eu sesiwn trosglwyddo gyda Mrs Martin-Williams yn ddiweddar. Dyma un o weithgareddau trosglwyddo Clwstwr Llanhari . Braf oedd cael blas o wersi Blwyddyn 7 Ysgol Llanhari.




**Diogelwch ar y Rhyngrwyd**
Daeth P.C.Lloyd i gynnal gweithdy pwysig iawn gyda Blwyddyn 3 a 4 ar gadw yn saff tra ar lein. Cafwyd ymateb ardderchog gan y disgyblion. Diolch yn fawr i P.C.Lloyd am ddod i drafod

**Mabolgampau**
Rhaid oedd cynnal mabolgampau eleni heb rieni i gefnogi, er gwaethaf hyn roedd plant wedi mwynhau. Braf oedd gweld y plant yn rhoi o'u gorau yn lliwiau eu llysoedd sef Cil Elai, Glyn a Tylcha.



Gwers achub bywyd gyda PC Davies




Bl4 a 5 yn dathlu eu llwyddiant ym mhrosiect Astudiaeth Bylbiau'r Gwanwyn





Blwyddyn 1 a 2 yn dathlu cymeryd rhan yn y mabolgampau



Gwers diogelwch ar-lein gyda PC Lloyd



Y diffibriliwr ar safle'r ysgol

# Curo'r Corona'n Coginio

## Eluned Davies-Scott

### Usain Bolt y byd llysiau



Ar gychwyn mis Mehefin aethon ni ar ein taith gyntaf eleni i orllewin Sussex. Rydym yn defnyddio'r trywydd gwledig ffordd yr A272, sy'n llawer mwy delfrydol na phrysurdeb yr A 34, i gyrraedd y rhosydd enwog. Dyma'r tro cyntaf i mi weld arwyddion o'r cnydau asbaragws sy'n cael eu tyfu ar ffermydd yr ardal ac roedd rhaid galw i mewn i siop fferm i brynu'r llysiau hyfryd hyn.

Nid pawb sy'n hoff o'r llysieuyn ac mae'n rhaid imi gyfaddef nad oedd fy mhrofiad cyntaf o'i fwyta yn ddymunol chwaith pan gafodd ei gyflwyno ar fy mhlât yn druenus o lipa mewn cinio yng Ngwesty'r Angel flynyddoedd yn ôl.

Mae Raymond Blanc yn galw i gof am ei ddifyrrwch o fynd, gyda'i ffrindiau i gasglu asbaragws gwyllt pan yn blentyn yn ardal Franche-Comte. Gwerthu bwndeli o'r llysiau i fwytai lleol oedd ffynhonnell eu harian poced. Cyn cyrraedd Lloegr, profiad coginiol Raymond oedd asbaragws gwyn sydd llawer mwy poblogaidd ar y cyfandir. Daw'r ddau o'r un planhigyn ond fe'u tyfir yn dra gwahanol. Mae egin yr asbaragws gwyrdd yn tyfu uwchben y pridd ac yn datblygu eu lliw trwy ffotosynthesis ond gydag asbaragws gwyn mae'r egin yn cael eu gorchuddio â phridd ac felly'n aros yn wyn. Mae'n rhaid plicio haen allanol yr un gwyn gan ei fod yn ffibrog a chwerw yna ei goginio am tua 40 munud.

Mae gan y planhigyn hanes diddorol. Fe'i darlunnir ar feddrodau'r Eifftwyr ac fe'i defnyddiwyd yn feddyginiaethol gan yr hen Roegiaid. Mae'n ymddangos mewn llyfr rysetiau *Apicus De Re Coquinaria* dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Yn ôl cyhoeddiad enwog gan John Gerrad yn 1597 credwyd y pryd hynny ei fod yn gyfrifol am allu *'increase seed and stir up lust'*! Mae'n llysieuyn maethlon sy'n cynnwys asid ffolid, ffibr, potasiwm a Fitaminau A, C a K. Yn anffodus mae hefyd yn cynnwys asid 'asparagusic' sy'n achosi i'r wrin gael arogl eithaf unigryw a braidd yn annymunol.

Credir i'r Rhufeiniaid gyflwyno'r llysieuyn i Brydain gyntaf. Fodd bynnag, yr asbaragws yr ydym yn ei drin a'i fwyta heddiw yw'r math Ffrengig o asbaragws a gyrhaeddodd i Brydain yn yr ail ganrif ar bymtheg. Mae'r gair Saesneg "asparagus" yn deillio o Ladin clasurol, ond ar un adeg roedd y planhigyn yn cael ei adnabod yn Saesneg fel 'sperage' neu 'sparrow-grass'; hyd yn oed heddiw mae'n cael ei alw'n 'Gras' yn Evesham.

Mae'r tywydd yn siroedd canolog a de Lloegr yn caniatáu i asbaragws ddatblygu'n araf gan ei wneud yn felys ac yn dyner. Yn Evesham, un o brif ardaloedd sy'n tyfu asbaragws, mae gŵyl wythnos o hyd yn cael ei chynnal bob blwyddyn i'r llysieuyn. Yn ystod ei dymor byr, sydd yn draddodiadol yn dechrau ar Ddydd San Siôr (23ain Ebrill) ac yn gorffen ar Ddiwrnod Canol Haf (21ain Mehefin), mae galw mawr am asbaragws Prydain; gyda £ 23 miliwn o bunnoedd yn cael ei wario ar y gwaywffyn. Mae pris asbaragws yn cael ei reoli gan gostau ei gynhyrchu, gan ei bod yn cymryd dwy i dair blynedd i'r planhigyn dyfu ei gnwd cyntaf. Mae hefyd yn gnwd llafurddwys i'w gynaeafu, a rhaid ei godi o'r pridd gyda llaw.Fel gymaint o fwydydd ffres eraill rydym yn gallu ei fewnforio tu allan i'w dymor Prydeinig. Un o'r cyflenwyr mwyaf i'w Periw. Er bod y fasnach asbaragws wedi bod yn achubiaeth i'r economi mewn rhai ardaloedd o 'r wlad nid yw hyn heb ei gost. Ar wahân i ôl troed carbon amlwg yr holl filltiroedd awyr o'i allforio i wledydd fel UDA a Phrydain, mae chwant am y llysieuyn moethus hwn yn creu argyfwng dŵr ym Mheriw sy'n arwain at galedi beunyddiol, colled o fywoliaeth i rai ac aflonyddwch sifil o ganlyniad i ddefnydd cynyddol o lafur mudol.

**Coginio gydag asbaragws**

Gelwir yr egin cynharaf yn 'sprue'. Maen nhw'n deneuach ac fel arfer yn dyner yr holl ffordd drwodd. Gall y rhai diweddarach yn y tymor fod yn fwy trwchus ac mae angen torri'r pen coediog i ffwrdd trwy blygu'r coesyn yn ysgafn, nes ei fod yn snapio - gallwch ddefnyddio'r pennau hyn i wneud stoc ar gyfer cawliau a stiwiau.

Yn glasurol mae asbaragws yn cael ei baru â chynhyrchion llaeth - wyau, hufen, caws hallt e.e. quiche ac omelettes; gyda menyn wedi'i doddi neu hollandaise; gyda feta briwsionllyd neu naddion parmesan; wedi'i dipio mewn mayo neu felyn wy meddal. Ond mae ffyrdd eraill o'i weini yn werth i'w hystyried. Mae blas sitrws yn gweithio'n dda e.e. dresin o groen a sudd oren wedi cymysgu gyda mwstard Dijon, finegr, olew olewydd a sialóts. Gellir bwyta asbaragws yn amrwd hefyd fel rhan o salad. Mae'n gweithio'n dda iawn wedi'i sleisio'n rhubanau gan ddefnyddio pliciwr llysiau. Dechreuwch trwy gael gwared ar y croen allanol anoddach a'i daflu. Piliwch rubanau hir nes i chi gyrraedd y canol, yna trowch drosodd ac ailadroddwch yr ochr arall.



Mae'n bwysig ei goginio'n ofalus iddo gadw ei wead. Dyma rhai awgrymiadau:
Blansio - Llenwch bowlen gyda dŵr oer a chiwbiau o rew a'i rhoi o'r neilltu. Plymiwch eich gwaywffyn asbaragws i mewn i badell o ddŵr berwedig, coginiwch am 1-2 munud. Tynnwch yr asbaragws allan o'r dŵr gyda gefel neu lwy slotiog a'i rhoi yn y bowlen o ddŵr iâ. Storiwch yn yr oergell nes bod ei angen, yna draeniwch ac ail-gynheswch mewn padell gydag ychydig o fenyn pan fyddwch chi eisiau gweini.

Coginio ar radell - gorchuddiwch yr asbaragws mewn ychydig o olew olewydd a sesnin. Cynheswch y radell ar wres uchel cyn coginio'r asbaragws am 1-2 munud ar bob ochr (mae gosod rhes o waywffyn gyda'i gilydd gyda sgiwerau yn eu gwneud yn llawer haws i'w troi). Gwiriwch a yw'r asbaragws yn barod trwy godi gwaywffon allan o'r badell radell gyda gefel. Os yw'n plygu ychydig, mae'n barod.
Rhostio - rhowch y popty i ffan / nwy 200C / 180C 6. Tywalltwch olew a sesnin dros yr asbaragws mewn tun rhostio yna ei rhostio am tua 12 munud.
Fy hoff ffordd o'i weini yw ei goginio ar radell yna ei fwyta gyda saws Hollandaise neu finegr Balsamic da a sleisys tenau o Parmesan neu ham Serrano.
Os fydd amser gennyf byddaf yn paratoi rysait Raymond Blanc – asbaragws wedi grilio gyda 'crymbl' llysiau.



Ac yn ôl i deitl yr erthygl – mae asbaragws yn cael eu galw'n Usain Bolt y byd llysiau oherwydd pa mor gyflym maen nhw'n tyfu (hyd at 10cm mewn diwrnod)!

# Ysgol Creigiau

**Llwyddiant Sgïo**



Yn ddiweddar cystadlodd Lily, Dosbarth 6, yng nghystadleuaeth 'Snowsport' Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Sgio Caerdydd. Ar ddiwedd y digwyddiad ac yn dilyn pedwar rhediad llwyddiannus dyfarnwyd y safle 1af i Ferched o dan 14 oed iddi! Llongyfarchiadau Lily - am lwyddiant arbennig.

**Gwisgwch Goch i Gymru a Felindre**

Ar ddiwrnod gêm Cymru yn erbyn Twrci yn yr Ewros cawsom lawer o hwyl a sbri yn ein dillad coch yn cefnogi 'Gwisgwch Goch i Gymru a Felindre'. Casglon ni £438.67 i'r elusen. Diolch i'n holl deuluoedd am eu haelioni.





Y Feithrin a Dosbarth 1 a Dosbarth4 (isod) yn Gwisgo Coch i Gymru a Felindre



**Gardd yr Ysgol**

Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn ngardd yr ysgol yn ddiweddar. Dyluniodd a mesurodd Class 2 nadroedd ac addurno'r coed i'w trawsnewid i goedwig law. Ail-greuodd disgyblion Dosbarth 2 greadigaethau Andy Goldsworthy gan ddefnyddio gwrthrychau a ddarganfuwyd yn yr ardd a bu Dosbarth 5 yn brysur yn tyfu tatws a ffa ac yn dyfrio'n coed newydd ar gae'r ysgol. Gwaith arbennig bawb!



Dosbarth 5 yn brysur yn garddio

**Mabolgampau**

O'r 21ain i'r 25ain Mehefin cawson wythnos fendigedig wrth i'r disgyblion gymryd rhan ym Mabolgampau eu dosbarth. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael hwyl a sbri gyda'u ffrindiau ar gae'r ysgol. Sefydlodd Gyfeillion yr Ysgol dudalen 'Just Giving' ar gyfer rhoddion. Maent yn gobeithio codi £2000 i gyrraedd eu nod o £10,000 er mwyn talu am lwybr antur newydd i'r ysgol. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.



Râs ŵy ar lwy y Derbyn

Mwynhau y Mabolgampau



Dosbarth 1



Dosbarth 2



Dosbarth 3

**Ymwelydd Pwysig**

Fore Mercher, 16eg Mehefin, cyflwynodd Matt Langridge, rhwyfwr Olympaidd, wers Addysg Gorfforol i ddisgyblion Dosbarth 6 a Class 6. Mae Matt yn un o athletwyr mwyaf llwyddiannus y Deyrnas Unedig, ar ôl cystadlu mewn 4 o'r Gemau Olympaidd, ennill 3 medal Olympaidd a nifer o deitlau Pencampwriaeth y Byd. Ar ôl gyrfa hir o 16 mlynedd gyda Thîm Rhwyfo Prydain, cyflawnodd Matt ei nod o ddod yn Bencampwr Olympaidd yng Ngemau Olympaidd Rio yn 2016. Roedd ei ymweliad, ei wers a'i sgwrs yn wirioneddol ysbrydoledig.



Dosbarth 6 gyda'r Rhwyfwr Matt Langridge

**Gweithdai Amrywiol**

Ymunodd nifer o ddosbarthiadau mewn gwahanol weithdai ar-lein yn ddiweddar. Mwynheuodd Blwyddyn 5 weithdy Printio 3D a gyflwynwyd gan Renishaw a gweithdy am Yr Ail Ryfer Byd. Cymerodd Dosbarth 6 ran mewn gweithdy 'Virgin Money' a Class 6 ran mewn gweithdy 'Morgan Sindall' fel rhan o Wythnos Agor Eich Llygaid. Dyluniwyd Wythnos Open Your Eyes i danio ac ysbrydoli diddordeb disgyblion mewn ystod eang o Swyddi. Mae Wythnos Agor Eich Llygaid wedi cael ei chynnal mewn ysgolion ers nifer o flynyddoedd ond dyma'r eildro i'r fenter symud i'r arena rithwir gan alluogi hyd yn oed mwy o blant nag o'r blaen i gymryd rhan. Mwynhaodd pob disgybl y profiadau a dysgon nhw sgiliau newydd.

**PC Ceri Cross**

Cymerodd disgyblion Dosbarth 6 ran mewn gwers ar-lein am Ddiogelwch y We a Seiber-fwlio a gyflwynwyd gan ein Swyddog Heddlu Cymunedol, PC Ceri Cross. Dysgodd y disgyblion negeseuon pwysig. Diolch PC Ceri!

**Cystadleuaeth Ddawns Gemau Caerdydd**

Llongyfarchiadau i Mali, Dosbarth 5, am ennill y gystadleuaeth dull rhydd ac i Ira-Leigh, Class 4, am ennill y gystadleuaeth Choreograffeg 2 yng nghystadleuaeth ddawns rithwir Gemau Caerdydd mewn partneriaeth â Dance Fit 2021 yn ddiweddar. Ardderchog Ferched!

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Dymuniadau Gorau**
Estynnwn ein dymuniadau gorau i Beti a Gwilym Treharne. Mae Beti druan yn dal yn yr ysbyty, ond mae'n dda deall ei bod yn ymateb yn ffafriol i'r driniaeth. Brysia adre Beti. Mae Gwilym yn teimlo'n dda iawn ar ôl ei driniaeth yntau. Dymunwn wellhad llwyr a buan i chi eich dau.

**Cyfnod Creadigol Iawn i Huw**
Llongyfarchiadau gwresog i Huw, mab Ann a Richard Griffiths, Parc Nant Celyn ar dderbyn yr ail wobr yng nghystadleuaeth Medal Rhyddiaith yn Eisteddfod T, Urdd Gobaith Cymru. Roedd hyn yn dipyn o gamp i Huw, gan fod dros 70 o ymgeiswyr yn y gystadleuaeth a oedd yn agored i rai rhwng 14 a 25 mlwydd oed, a Huw yn dal i fod yn ddisgybl yn Ysgol Garth Olwg.



Ar ddydd Gwener yr Eisteddfod T gwelwyd Huw yn cipio'r ail wobr eto yn y gystadleuaeth llefaru dan 25 oed, gan dderbyn canmoliaeth uchel gan Anni Llŷn, y beirniad, am ei ddehongliad cynnil ac ystyrlon o "Gweddi'r Terfyn" gan Saunders Lewis.

Mae wedi bod yn gyfnod creadigol iawn i Huw yn ddiweddar gan iddo ennill cadair Eisteddfod Dafydd ap Gwilym, Prifysgol Rhydychen. Cafodd feirniadaeth wych gan Y Prifardd Mererid Hopwood a ddisgrifiodd Huw fel bardd gwreiddiol. Bardd y byddai'n rhagweld dyfodol disglair iddo.

Nid llenydda yw unig ddawn Huw. Mae'n gerddor arbennig hefyd ac yn cyfansoddi a pherfformio gyda'r grŵp "Dail". Cafodd Dail y cyfle i gael eu clywed yn ddyddiol fel trac yr wythnos ar Radio Cymru adeg y Sulgwyn.

Llongyfarchiadau fil iti Huw, a dal ati i ganu, barddoni a llenydda.

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau i Sioned Geraint, Parc Nant Celyn sydd wedi ei phenodi'n Gomisiynydd Plant a Dysgwyr newydd i S4C. Bydd yn cychwyn ar ei swydd newydd ym mis Medi. Mae ganddi brofiad helaeth o weithio yn y cyfryngau gan ddechrau yn Adran Blant ac Adloniant HTV. Chwaraeodd rôl bwysig yn sefydlu'r gyfres i ddysgwyr "Cariad at Iaith" a bu'n gynhyrchydd i'r gyfres "Welsh in a Week" am rai blynyddoedd. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Cynhyrchydd Cyfres ac Uwch-gynhyrchydd llawrydd. Mae newydd orffen gweithio ar y gyfres ddiddorol "Cymry ar Gynfas" i S4C.



**Yn rhifyn olaf mis Mehefin o'r cylchgrawn Golwg roedd Sioned Geraint yn arddangos ei dewis o ddillad yn y gyfres Steil.**

**Penbleth y Brodyr Karadogan**
Cafodd y ddau frawd Josh a Jack Karadogan o'r Efail Isaf dipyn o sylw ar y cyfryngau adeg gemau'r Ewros. Pan chwaraeodd tîm Cymru a thîm Twrci roedd yn broblem i'r brodyr pa dîm i gefnogi gan fod eu mam yn Gymraes a'u tad yn hanu o Dwrci.




Josh a Jack Karadogan

**Y TABERNACL**
**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant fel eglwys i Mari a Wyn Jones a'r plant ar golli tad Mari ddiwedd mis Mai. Roedd Dennis Thomas yn Athro Emeritws yn yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Penodi Gweithiwr Ieuenctid i'r Eglwys?**
Trefnwyd cyfarfod ar Zoom nos Iau, Mai 27ain i ystyried cefnogi prosiect cyffrous oedd wedi ei gynllunio gan yr Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi mewn ymateb i wahoddiad Undeb yr Annibynwyr i eglwysi'r enwad i lunio cais am gymorth ariannol. Edwyn Evans, cadeirydd y Bwrdd fu'n arwain y drafodaeth a daethpwyd i'r casgliad mai targedu gweithgareddau i ddenu a chadw diddordeb pobl ifanc ym mywyd yr eglwys fyddai'r flaenoriaeth. Ar ôl trafod amryw o gwestiynau perthnasol cafwyd pleidlais unfrydol i symud ymlaen i gyflwyno cais i Undeb yr Annibynwyr am gymorth ariannol i gyflogi Swyddog Ieuenctid a Chymunedol.

**Cais Llwyddiannus**
Mae'r cais am grant gan "Cadw Cymru'n Daclus" i ddatblygu'r ardd gymunedol wedi bod yn llwyddiannus. Newyddion gwych i aelodau'r capel ac i'r gymuned leol. Mae'n debyg y byddwn yn derbyn amrywiaeth o blanhigion, coed, blodau ac offer garddio maes o law dan y cynllun "Lleoedd lleol ar gyfer natur." Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod ynghlwm â'r cynllun hwn, yn arbennig criw Bore iau am danio'r diddordeb a chychwyn y fenter. Rhaid diolch hefyd i Emma Shepherd, aelod o'r gymuned leol am ei chyngor parod wrth baratoi'r cais.




Prysurdeb yng ngardd y Capel

# Ysgol Garth Olwg

**Gweithdy Cemeg**

Cafodd disgyblion Cemeg yr ysgol hŷn gyfle i fynychu gweithdy ymarferol yn yr ysgol Gemeg ym Mhrifysgol Abertawe ar ddechrau'r mis. Treuliodd y disgyblion y dydd yn gwneud gwaith ymarferol gyda myfyrwyr y brifysgol o dan ofal y darlithiwr Simon Bott yn ei labordai newydd. Dywedodd Will bod y daith yn ddiddorol iawn ac yn brofiad gwych. Fe wnaeth e fwynhau medru defnyddio'r holl offer modern ac yn ddiolchgar iawn i'r brifysgol am y profiad. Roedd Conan hefyd wedi mwynhau'r cyfle i wneud arbrofion gan ddefnyddio offer *high-tech* y brifysgol. Hoff ran Carwyn oedd cael profiad o weithio mewn labordy prifysgol. Diolch eto i brifysgol Abertawe am y croeso!





**Newyddion Chwaraeon**

Llongyfarchiadau i Ben Burnell ar gyrraedd carfan rygbi Cymru o dan 20.






I Ioan Emanuel, Blwyddyn 11 sydd wedi cynrychioli'r Gleision o dan 18.




Da iawn i Joey Williams, Blwyddyn 9 sydd wedi llofnodi cytundeb gydag Academi pêl-droed Abertawe ac i Lauren Payne, Blwyddyn 9 sydd wedi llwyddo i




gyrraedd academi pêl-droed merched Cymru o dan 16.

Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Ruby Neale o flwyddyn 8 a ddaeth yn 4ydd ym Mhrydain ym mhencampwriaeth dawns Lladin America.

**Ymweliad y Gweinidog Addysg**

Roedd hi'n fraint cael croesawu Jeremy Miles, ein Gweinidog Addysg i'r ysgol ar y 10fed o Fehefin. Dyma oedd ei ymweliad cyntaf yn rhinwedd ei swydd newydd gydag ysgol bob oed. Cafwyd sgyrsiau diddorol iawn am addysg rhyngddo ef, yr athrawon a disgyblion.



**Llwyddiant Eisteddfod T**

Llongyfarchiadau enfawr i Huw Griffiths a gipiodd yr ail safle yng nghystadleuaeth rhyddiaith Eisteddfod T! Roedd yn fraint ei weld ar y sgrin yn y seremoni yn Llangrannog. Cafodd Huw hefyd lwyddiant yn y gystadleuaeth llefaru o dan 25 wrth dderbyn yr ail wobr ynddi. Cafodd Elis Davies, Blwyddyn 4 hefyd lwyddiant trwy ennill yr ail wobr am ei adolygiad ffilm. Da iawn chi fechgyn!

**Yr Ysgol Isaf**
**Little Kickers**

Ai rhain fydd sêr tîm pêl-droed Cymru yn y dyfodol? Bu'r disgyblion ar draws yr Ysgol Isaf yn dysgu sgiliau newydd yng nghwmni Little Kickers fel rhan o wersi pythefnos Uchelgeisiol a Galluog. Diolch yn fawr iawn i chi am y sesiynau llawn hwyl a sbri.






**Mabolgampau**

Roedd y disgyblion wrth eu boddau ym mwrlwm mabolgampau'r ysgol eleni ac roedd pawb wedi ceisio eu gorau glas ym mhob cystadleuaeth. Llongyfarchiadau i bawb. Rydym yn falch iawn ohonoch.



**Gwyddoniaeth**

Dros y bythefnos ddiwethaf bu'r disgyblion yn ffodus iawn i gael ymweliad gan staff yr Adran Wyddoniaeth. Cawsant wers ddiddorol iawn ar nodweddion anifeiliaid a chynefinoedd. Braf oedd cwrdd â 'Deilen' a 'Llew' - moch cwta Mr. Evans a Mr. Porter! Roedd y plant wedi gwirioni! Diolch i chi.



**Gweithdy gwisgoedd**

Fel rhan o bythefnos Creadigol a Mentrus cafodd ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 fore prysur iawn yn creu gwisgoedd newydd allan o'u hen ddillad dan ofal un o rieni'r ysgol. Cafodd y plant brofiad arbennig yn ei chwmni. Diolch Mrs Lewis.





Parhad ar dudalen 11

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon:**
**Mis Gorffennaf 2021 (Yn y capel):**
4 Gorffennaf – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
11 Gorffennaf – Oedfa dan ofal y Parchedig Ifan Roberts
18 Gorffennaf – Oedfa dan ofal Rhodri Jones
25 Gorffennaf - Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
(Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gydio yn y gweithgaredd wedi'r haf.)
**Mis Awst 2021** (Oedfaon am yn ail â'r Tabernacl, Efail Isaf ):
1, 15, 29 Awst dan ofal Efail Isaf
8, 22 Awst dan ofal Bethlehem, Gwaelod -y-garth.

---oooOOOooo---

Mae'n hirddydd haf (Mehefin yr 21ain) arnaf yn paratoi'r pwt yma i'r Tafod. Alban Hefin a ddewisodd Iolo Morganwg ei alw - y diwrnod hiraf o oleuni'r haul rhwng gwawr a machlud.

Roedd hi'n Sul y Tadau ddoe, ac fel llawer eraill ohonoch dwi'n siŵr, cawsom ennyd fach dawel i gofio am y tadau rheini a gollwyd o'n plith dros y blynyddoedd.

Bu'n nhad farw yn 1998, ond fe gofiaf yn iawn y byddai heddiw, hirddydd haf, yn ddiwrnod ddigon digalon iddo oherwydd ei gred mai ar i lawr y byddai pethau wedyn, hyd nes cyrraedd Alban Arthen, un arall o stabal Iolo, sef y dydd byrraf (byrddydd gaeaf), yr 21ain o Ragfyr.

Yn ei flynyddoedd olaf, byddai cyrraedd yr adeg honno o'r flwyddyn yn ddathliad oherwydd bod y rhod ar droi unwaith yn rhagor a'r goleuni yn cael y gorau o'r tywyllwch o hynny ymlaen.

Wn i ddim a oedd erioed wedi clywed am ŵr o'r enw Robert Schuman - mae'n bosibl ei fod, gan i hwnnw gael ei eni rhyw 20 mlynedd cyn geni fy nhad yn 1906, ond fe ddaliwyd fy sylw y dydd o'r blaen gan erthygl yn son am fwriad y Pab Francis i gychwyn y broses o'i wneud yn Sant, a hynny ar y sail mai ef oedd "Tad" yr Ewrop fodern.

Bu farw'r gwladweinydd Catholig o Ffrancwr (a aned yn Lwcsembwrg) yn 1963, ond 'roedd yn allweddol yn creu'r sefydliadau Ewropeaidd sy'n bodoli heddiw, a thrwy hynny yn gyfrifol am greu amgylchiadau fyddai'n gogwyddo tuag at heddwch yn hytrach na'r rhyfela a rwygodd y cyfandir yn gynharach yn yr ugeinfed ganrif.

Bu'n gefnogol am gyfnod i Marshal Petain yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond wedi goresgyn Ffrainc gan luoedd Hitler yn 1940 cafodd ei arestio gan y Gestapo. Fe lwyddodd i ddianc o'u crafangau hyd nes i'r rhyfel ddod i ben.

Wedi hynny bu'n gwasanaethu fel Prif Weinidog a Gweinidog Tramor y wlad, ac fe ymledodd ei ddylanwad gyda'i gynlluniau i rannu adnoddau glo a dur rhwng gwledydd Ewrop fel modd o osgoi terfysg cyfandirol yn y dyfodol.

Gwnaed hynny ar y 9fed o Fai, 1950, ac mae'r diwrnod hwnnw mwyach yn cael ei arddel yn flynyddol fel Dydd Ewrop.

Llofnodwyd "Cytundeb Paris" rhwng chwech o'r gwledydd, a dyfodd yn ei dro i ddod yn Gymuned Economaidd Ewropeaidd, ac yna erbyn 1993 yn Undeb Ewropeaidd.

Bu ganddo ran yn ogystal yn sefydlu NATO – sef Sefydliad Cytundeb Gogledd yr Iwerydd, a bu'n arlywydd cyntaf yr hyn a ddatblygodd yn ddiweddarach yn Senedd Ewrop.

Ar ddathliad 70fed pen blwydd "Datganiad Schuman" mynegodd y Pab Francis mai dyma'r catalydd sydd wedi arwain at yr heddwch a'r sefydlogrwydd sy'n nodweddu'r cyfandir heddiw, a bod y gwrthrych o'r herwydd yn cael ei gydnabod yn "Hybarch" o fewn yr eglwys, cam tri o bum cam tuag at ei greu yn Sant.

Bydd angen wedyn cydnabod dwy wyrth, trwy weddi, un i'w ddyrchafu'n "Wynfydedig", ar llall i'w "Ganoneiddio" yn Sant.

Fe all y broses honno gymryd blynyddoedd!

Yn nes adref, ar yr 11eg o Fehefin eleni, bu farw un o gymeriadau cefn gwlad Meirionnydd – sef Gerald Williams, nai Hedd Wyn a cheidwad Yr Ysgwrn.

Wn i ddim os oes 'na le i fwy nag un sant yn Nhrawsfynydd, o gofio i Sant John Roberts, mab fferm "Rhiw Goch", gael ei ganoneiddio ym mis Hydref 1970, 360 o flynyddoedd wedi iddo gael ei ddienyddio yng Ngharchar Newgate, Llundain, ac yntau ond yn 33 mlwydd oed. Yn ôl y son mae rhannau o'i gorff yntau wedi eu gwasgaru dros gyfandir Ewrop.

Ond petai angen ychwanegu at y rhengoedd, yna mae'n siŵr y byddai Gerald Williams yn go agos at y brig!

Hybarch –
*'Cadw'r drws yn 'gorad - mi wna i hynny tra bydda i yn byw yndê.'* - dyna'i gymwynas enfawr a'i genedl, a hynny yn cadw addewid i'w nain, sef mam Bardd y Gadair Ddu, a syrthiodd ar faes y gad ym Mrwydr Passchendaele, ar dir mawr Ewrop, yn 1917.

Gwynfydedig -
"*Roedd Nain bob amser yn dweud doeddan ni ddim i gloi drws rhag ofn i'r hogia ddod adra.*"

Canoneiddio -
*"... nid Ellis Humphrey Evans, neu Hedd Wyn, yn unig oeddem yn ei gofio wrth ymweld â'r Ysgwrn ond pob unigolyn a fu farw yn y rhyfel, y deg ar hugain o fechgyn Trawsfynydd a fu farw, hen farddoniaeth Gymraeg, hen ffordd o ffermio a holl aelodau o deulu'r Evans."*

# Ysgol Garth Olwg

**(Parhad o dudalen 10)**

**Book Slam**
Derbyniodd yr ysgol newyddion da am lwyddiant disgyblion blwyddyn 3 a 4 yng nghystadleuaeth 'Book Slam' Rhondda Cynon Taf i ddisgyblion blynyddoedd 3-6. Llongyfarchiadau enfawr i chi!



**Codi Sbwriel**
Bu plant yr Ysgol Isaf a'r Ysgol Ganol (blwyddyn 2 ac 8) yn brysur iawn un bore yn casglu sbwriel o amgylch tir yr ysgol er mwyn gwella ein hamgylchedd. Braf oedd gweld y disgyblion yn cydweithio fel un ysgol. Diolch yn fawr i chi am eich gwaith caled.



Gadawaf y gair olaf i ambell gwpled o waith Tudur Dylan, o'r gyfrol farddoniaeth ddiweddar gyda'i dad, y Parchedig John Gwilym Jones, "Am yn ail", lle y crisiala'r cyfan mewn cywydd "I Gerald, nai Hedd Wyn":-

*A hwn ddoe a addawodd*
*Roi ei oes i'w deulu'n rhodd,*
...
*A ŵyr fod gwerth i stori*
*Sy'n anodd ei hadrodd hi,*
*Ond â dawn ei hil fe'i dwed…*
...
*a gŵr a'i waith yn y gwres*
*Yn rhannu dagrau'r hanes;*
...
*Wastad fe dyr yn ddistaw;*
*Drwy'i stori drist, y wawr draw."*

---oooOOOooo---

Diolch unwaith eto i'r holl gymwynaswyr sydd, yn ystod y mis a aeth heibio, wedi gofalu am ein hoedfaon a'r Ysgol Sul ym Methlehem, Gwaelod-y -garth.

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

# Cymdeithas Edward Llwyd

Yn araf deg mae pethau'n gwella yn ein gwlad ac mae aelodau'r gymdeithas yn crwydro'r cefn gwlad unwaith eto, yn mwynhau'r awyr iach a gwerthfawrogi blodau gwyllt y gwanwyn ar ôl gorfod cadw draw am gymaint o amser. Dw i'n falch o ddweud bod llawer o ddysgwyr yn cerdded efo ni ac yn cael cyfle ardderchog i ddatblygu eu Cymraeg wrth sgwrsio – y ffordd naturiol o ddatblygu iaith newydd. Dyma brofiad un sydd yn cerdded efo ni yn gyson.

**Dysgu'r iaith gyda Chymdeithas Edward Llwyd.**
gan Shelagh Fishlock

Dechreuais i ddysgu Cymraeg mewn dosbarth Coleg Gwent yn 2018. Yn ogystal â dosbarthiadau, roedd athrawon y Coleg yn trefnu gwahanol weithgareddau i ddysgwyr er mwyn cwrdd â Chymry Cymraeg yr ardal. Y tro cyntaf i fi ymuno oedd ar daith gerdded yng Ngwlypdiroedd Casnewydd a threfnwyd gan y Coleg a Chymdeithas Edward Llwyd.

Prin iawn oedd fy Nghymraeg ar y pryd, ond cwrddais i â sawl dysgwr arall, a hefyd aelodau CELl. Ces i fy annog i ddal ati gyda'r iaith. Yn ystod y daith o gwmpas y Gwlypdiroedd, esboniodd yr arweinydd (y diweddar Gareth Beynon) y byddai taith arall y Gymdeithas yna ym mis Tachwedd, amser "murmurations" y drudwyod. A dyma fi'n chwilio am fanylion ar wefan CELl, wefan cyfrwng Cymraeg wrth gwrs. Wedi darllen geiriau fel "dringo" a "serth," es i â'r rhestr i fy nhiwtor- roeddwn i'n edrych ar restr teithiau'r Gogledd-orllewin! Wedyn, wrth edrych ar y rhestr gywir doedd dim sôn am 'Wlypdiroedd Casnewydd.' Roeddwn ar goll nes i mi weld y geiriau 'Crwydro Gwastadeddau Gwent'. Ond er gwaetha'r heriau ieithyddol, ymunais i â'r daith - daith a fyddai'n cychwyn siwrne arall i ddarganfod mwy am natur, hanes a diwylliant Cymru, ffrindiau newydd ac iaith y nefoedd.

Ar y dechrau roedd hi'n anodd iawn i fi gael sgwrs gydag aelodau o'r grŵp, ond roedd pawb yn amyneddgar, yn ailadrodd cwestiynau, yn esbonio pethau ac yn gwneud eu gorau glas i ddeall fy mrawddegau lletchwith. Ar ddiwedd bob taith ro'n i wedi blino'n lân - dim achos y cerdded, ond achos diwrnod hir o Gymraeg. Yn ffodus, erbyn hyn, er nad ydw i'n rhugl, dw i'n gallu mwynhau sgwrsio, a deall y rhan fwyaf o esboniadau'r arweinydd (Hyd yn oed rhai ag acen Cwm Tawe!)


Felly, sut mae'r teithiau Cymdeithas Edward Llwyd yn help i ddysgwr (neu "siaradwr newydd")?

- Byddech chi gyda grŵp sydd â diddordeb cyffredin – cerdded, byd natur, hanes Cymru.
- Byddech chi'n treulio diwrnod cyfan mewn amgylchedd hollol Cymraeg, ble mae siarad yn Saesneg yn swnio'n annaturiol.
- Dim "Cymraeg y dosbarth" sy'n cael ei defnyddio: bydd pobl yn y grŵp o bob ardal o Gymru, gydag acennau gwahanol, geiriau tafodieithol a gwahanol ffasiynau o ddefnyddio'r iaith. Mae hynny'n ddryslyd ar y dechrau, ond yn ddefnyddiol iawn i werthfawrogi amrywiaeth yr iaith.
- Bydd y profiad hwn yn cynyddu'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd eraill y tu allan i'r dosbarth.
- Mae e'n jyst lot o hwyl!

Da ynte! Mae Shelagh wedi croesi'r bont o fod yn ddysgwraig i fod yn un o'n siaradwyr newydd hyderus. Mae angen llawer mwy fel hi os ydym i fod i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Fel cymdeithas sydd yn cerdded mewn tair rhan dros Gymru bob dydd Sadwrn mae cyfle gwych i ddatblygu'r iaith a gwneud ffrindiau newydd. Ewch at ein gwefan i lawr lwytho ffurflen aelodaeth - https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/aelodaeth/ . Mae ein rhaglenni teithiau maes i'w gael ar y wefan hefyd a bydd eich aelodaeth yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf 2022. Gall bod fel cael Sadwrn Siarad bob wythnos am ddim ond £20!


Dewch i fwynhau a chadwch eich Cymraeg yn fyw!

Rob Evans – Ysgrifennydd Aelodaeth




Annwyl Ddarllenwyr
Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, ***Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad***, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Cyfrol yw hon yn croniclo hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl, gwaddol sy'n parhau i gael ei dosbarthu mewn grantiau i bobl Cymru'n flynyddol. Awdur y gyfrol yw Richard Morgan, fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a fu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.
Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y gyfrol (pris £18 yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac **erbyn 16 Gorffennaf fan bellaf**. Gweler y manylion cyswllt isod.
Yn gywir
**Gwenan Creunant**
Ffôn: 01970 612806
E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru

# 'Llyfr Cof a Hiraeth - Ni All Neb Ei Gau'





Mae'r profiad o golli rhywun annwyl yr un fath o un genhedlaeth i'r nesaf. Yr un ydi'r boen, a'r galar a'r hiraeth. Ond mae'r arferion cymdeithasol sydd ynghlwm â chydymdeimlo mewn profedigaeth wedi newid. Yn yr hen ddyddiau'r arfer oedd mynd i ymweld â'r profedigaethus gyda hanner pwys o de neu dun salmon, neu ynteu anfon llythyr neu gerdyn. Erbyn heddiw mae pobol yn aml yn anfon blodau, ffonio neu decstio, neu'n anfon neges trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol – Facebook a trydar – canolbwynt bywyd cymdeithasol cymaint ohonom. Yn aml gwelir rhes o galonnau a chusanau ar y negeseuon hynny, ond dim un gair. Ac eto mae lle i eiriau.



Ar ôl colli ei mam yn greulon o sydyn ddiwedd 2019, a'i thad ychydig flynyddoedd cyn hynny, aeth Elin Angharad Davies ati i sefydlu tudalen Facebook o'r enw Gair o Gysur, gan bostio cerddi o'i gwaith ei hun ac addasiadau, ynghyd â dywediadau cysurlon ar gefndir ffotograffau atmosfferig. Bu'r dudalen yn hit mawr gan ddenu ymhell dros ddwy fil o ddilynwyr, ac mae wedi cynnig cysur i lu a brofodd golled neu amgylchiadau anodd. Ond oherwydd natur fyrhoedlog y cyfrwng, diflanedig ydi'r postiadau arni, yn hytrach na rhywbeth solet y gellir troi'n ôl ato am gysur. Dyna fu'r sbardun i Elin fynd ati, ar wahoddiad Gwasg y Bwthyn, i lunio'r casgliad a welir yn y gyfrol ***Gair o Gysur***.

Mae ***Gair o Gysur*** a olygwyd gan Elin Angharad ar gael yn eich siop lyfrau leol neu o gwales.com Clawr caled
Pris: £9.00

# Dathlu Canrif Clwb Golff Creigiau




Eleni mae Clwb Golff Creigiau, sefydliad sy'n agos at galon llawer o ddarllenwyr Tafod Elái, yn dathlu can mlynedd ers i'r gêm gyntaf gael ei chwarae ar y meysydd braf i'r gogledd o'r pentref.

Mae Malcolm Charnley, un o aelodau'r clwb, wedi casglu hanes y pentref a'r clwb mewn llyfr fydd yn drysor i'r selogion.

Sefydlwyd y clwb gan bobl leol gyda chefnogaeth busnesau o Gaerdydd. Llywydd cyntaf y clwb o 1921 i 1951 oedd Colonel Mervyn Wingfield, perchennog tir y cwrs a rhan fwyaf o ffermydd yr ardal. Yn amlwg roedd cryn frwdfrydedd i sicrhau llwyddiant y clwb a bu'n gyrchfan i aelodau o nifer o bentrefi cyfagos.

Gyda chymorth Cyngor Taf Elái a Chyngor Chwaraeon Cymru llwyddwyd i brynu tir y clwb oddi wrth ystâd Wingfield yn 1975, yn ystod cyfnod o ddatblygu mawr yn y pentref gyda chefnogaeth cynyddol i'r clwb. Erbyn 1986 llwyddwyd i ehangu'r cwrs i 18 twll o fewn y 57 erw o dir ac yna yn 1993 agorwyd adeilad newydd y clwb sy'n gartref i nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol y pentref.

Mae'r llyfr yn gronicl manwl o ddatblygiad y clwb, y gwaith ymroddgar, y cymeriadau a'r llwyddiannau ddaeth i unigolion a thimau'r clwb.



Aelodau Vets y Merched gyda Lesley Jones, Capten y Clwb




Cymdeithas Golffio y Rams, Clwb Rygbi Pentyrch



Rhai o sylfaenwyr y Clwb:
Tom Evans, Fred Golding, Reg Tanner a Trevor Davies



Aelodau Cymdeithas y Vets yn dathlu 40 mlynedd yn 2017.



Golygfa o'r cwrs a'r pentref



Agorwyd cartref newydd y Clwb yn 1993

# Ysgol Dolau




**Gwobr Arian y Siarter Iaith Gymraeg**


Mae Dreigiau Dolau wedi bod yn hynod o brysur dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn gweithio tuag at wobr arian y Siarter Iaith Gymraeg. Mae nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus wedi'u cynnal dros y blynyddoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth a defnydd o'r iaith. Mae enghreifftiau o'r ymgyrchoedd yma'n cynnwys Coffi, Clonc a Chwpan y byd (cyfle i blant yr ysgol fwynhau gem Cwpan Rygbi'r Byd yn y dosbarth), Trac yr Wythnos, hyfforddiant staff cinio/ategol i ddefnyddio Cymraeg pob dydd, darparu hyfforddiant Cymraeg i fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cystadleuaeth Cardiau Nadolig Cymraeg a chylchlythyron tymhorol. Mae disgyblion Dosbarth 8 wedi cymryd yr awenau fel Dreigiau Dolau eleni er mwyn cadw at y swigod sy'n gweithredu o fewn ysgolion ac maen nhw wedi bod yn hynod o weithgar. Llongyfarchiadau enfawr i bawb sydd wedi bod ynghlwm gyda'n hymgyrch i ennill y wobr arian. Mae hi wedi bod yn daith hir a throellog (diolch i'n hen ffrind, Covid!) ond rydyn ni wedi cyrraedd pen y daith ar gyfer y wobr arian o'r diwedd. Ymlaen yn awr at y wobr aur!

**Yr Hedyn Ben i Waered**

Mae Dosbarth 3 wedi bod yn arbrofi gyda phlannu hadau ben i waered. Y bwriad oedd darganfod beth fyddai'n digwydd neu yn newid os oedd yr hadau yn cael eu plannu ben i waered. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn arbrofi ac yn bod yn blant bach annibynnol. Fel y gwelwch o'r lluniau, bu'r garddio, o leiaf, yn llwyddiant a thyfodd y planhigion i gyda. Tybed beth oedd canlyniad yr arbrawf a beth sylwodd y plant yn digwydd yn wahanol?







**Y Cyngor Lles**

Mae lles ein disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau wedi bod yn flaenoriaeth erioed ac rydyn ni'n falch iawn o'r plant bach hapus sy'n croesi'r trothwy bob dydd. Serch hynny, ac ar ôl y flwyddyn ddiwethaf, fe benderfynon ni ffurfio cyngor lles a fyddai'n sicrhau hapusrwydd, iechyd a hyder pob unigolyn wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol wedi'r cyfnod clo. Sefydlwyd y cyngor lles drwy broses o lenwi ffurflen gais (blwyddyn 4-6). Un o'r pethau sydd wedi bod yn holl bwysig i'r cyngor lles hyd yn hyn yw sicrhau presenoldeb pob plentyn yn yr ysgol. Maen nhw wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau gwobrau er mwyn annog presenoldeb ardderchog, e.e. mae Athlete Kitchen (Llanharan) a La Trattoria (Tonysguboriau) wedi cytuno i roi gwobr sylweddol o ymweliad a bwyd i'r dosbarthiadau gyda'r presenoldeb gorau. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu cefnogaeth! Mae'r cyngor hefyd wedi trafod a threfnu gwobrau a fydd ar gael i 3 unigolyn allan o'r rhai hynny sy'n llwyddo i gael 100% yn eu presenoldeb dros y flwyddyn. Mae'r cyngor hefyd wedi sefydlu Awr Lles ar ddydd Gwener, cyfle wythnosol i bob plentyn fod yn rhan o weithgareddau sydd â lles cymdeithasol, emosiynol, amgylcheddol a chorfforol yn eu hanfod. Gobaith hir dymor y cyngor lles yw codi digon o arian er mwyn adeiladu ardal lles ar fuarth yr ysgol. Bydd yr ardal lles yma'n hafan i blant treulio amser myfyriol. Rydyn ni'n hynod o falch o'r cyngor hyd yn hyn ac yn edrych ymlaen yn arw at gael datblygu'r cyngor ymhellach yn 2021/22.











**Ardal Allanol y Babanod**

Mae plant a staff Ysgol Gynradd Dolau wedi synhwyro fod angen sbarc o fywyd newydd ar Ardd Synhwyrau'r y babanod ers cryn dipyn o amser. O'r diwedd mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi penderfynu gwneud rhywbeth am y sefyllfa. Mae gan bob dosbarth gyfrifoldeb dros un o'r gerddi bach ac mae gofyn iddynt blannu a harddu'r gerddi dros dymor yr haf. Mae'r gwaith wedi hen ddechrau a'r gerddi yn dechrau adfywio. Bydd ffrwyth llafur y disgyblion i'w weld dros wythnosau poethaf yr haf ... gobeithio!



**Gerddi Bach Mewn Gwydrau Mawr**

Yn ystod tymor yr haf, mae Ysgol Gynradd Dolau wedi bod yn arbrofi gyda'r cwricwlwm newydd ac yn ceisio dod a'r meysydd dysgu a'r holl ystyriaethau ehangach at ei gilydd mewn un cywaith





cyffrous. Fel rhan o'u cywaith nhw, bu disgyblion blwyddyn 6 yn gwneud ymchwil i blanhigion ac yn ystyried lles pobl. Canlyniad y cywaith hyfryd yma oedd bod pob plentyn yn y dosbarth wedi creu gardd fach hunangynhaliol i roi yn eu hystafelloedd gwely adref.

**Cywion Bach**

Rydyn ni'n mwynhau croesawu anifeiliaid bach i'n hysgol, ac yn dilyn ymweliad yr wyn bach rhai wythnosau yn ôl, rydyn ni wedi bod yn magu cywion bach. Roedd y profiad o weld yr wyau yn deor yn y deorydd yn anhygoel ac mae'r plant wedi bod yn wych yn glanhau blwch y cywion pob dydd.





# Ysgol Castellau

**Ymweliad Alex Davies-Jones**
Cafodd Aelod Seneddol Pontypridd, Alex Davies-Jones groeso cynnes iawn yng Nghastellau yn ddiweddar. Aeth ar daith o amgylch y dosbarthiadau a'n hardaloledd tu fas. Treuliodd amser ym Mlwyddyn Chwech yn addysgu'r plant am ei swydd. Roedd y plant wrth eu boddau gyda'r profiad o gynnal ddadl o blaid ac yn erbyn gwisg ysgol er mwyn dysgu mwy am beth sy'n digwydd yn San Steffan. Yn ogystal cafodd y plant gyfle i drafod beth yw'r pethau sydd yn eu poeni a beth dylsai fod yn cael eu trafod yn fwy gan wleidyddion.




**Rygbi gyda Jeff Peck**
Diolch o galon i Jeff Peck, sydd yn arwain adran rygbi i blant Clwb Rygbi y Beddau, am ddod mewn sawl gwaith i gynnal sesiynau sgiliau rygbi gyda phlant CA2 yr ysgol. Mae Mr Peck wrthi yn cynllunio a threfnu cydweithio gyda ni i gynnal clwb diwedd y dydd i blant ym mis Medi ond yn y cyfamser yn dod mewn i gynnig profiadau i'r dysgwyr.





**Pêl-droed gyda Megan Bowen**
Diolch o galon i Megan Bowen, sydd yn aelod o garfan pêl droed o dan 17 Merched Cymru am dreulio sawl prynhawn gyda ni yn cynnig profiad i'n dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau pêl



droed. Buodd Megan yn gweithio gyda dysgwyr CA 2 ac mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd a chlywed am brofiadau Megan yn ymarfer a chwarae gyda charfan Cymru.

**Casglu Sbwriel**
Mae'r plant wedi bod yn hynod o brysur yn gofalu am ein pentref a chymuned unwaith eto y mis yma. Mae Blwyddyn 6 wedi bod mas yn casglu sbwriel o amgylch y pentref ac mae dosbarth Jac Do wedi bod yn casglu sbwriel ar dir yr ysgol.





**Gwersi Coginio**

Mae plant Blwyddyn 6 wedi bod yn lwcus iawn i gael cymryd rhan mewn cyfres o wersi coginio i deuluoedd. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, nid sesiynau yn yr ysgol ydyn nhw - ond dydy hynny ddim yn atal ein dysgwyr ni! Mae Richard Shaw yn cynnal y gwersi trwy Google Meet ac mae yna 15 o blant yn mewngofnodi bob wythnos i ddatblygu sgiliau coginio a dysgu am fwydydd iach. Diolch i HAPI a Richard Shaw am ddarparu'r bwyd i ni - blasus iawn!



**Gwersi Meddwlgarwch**
Mae plant blynyddoedd 4, 5 a 6 wedi bod yn croesawu Liz Brillante i'w dosbarthiadau yn wythnosol i gynnal cyfres o wersi Meddwlgarwch. Mae'r plant wedi bod yn ymarfer technegau anadlu, dysgu am yr ymennydd, ymarfer ffocysu eu sylw ac ymarfer ceisio tawelu eu meddyliau.




**Adam Coleman**
Buodd Adam Coleman ym Mlwyddyn 6 i rhoi anrheg o lyfr am symud ymlaen i'r ysgol gyfun i'r dysgwyr. Mwynheuodd y plant gweithdy bywiog a chwis am symud i Flwyddyn 7, oedd yn cynnwys fidios a gemau. Cafodd y plant gyfle gwych i drafod eu teimladau am symud ymlaen.



**Gwobr Aur Pedwar Diben Castellau**
Llongyfarchiadau gwresog i'r 5 disgybl Blwyddyn 6 yma sydd wedi cyrraedd y nod i ennill wobr Aur yr ysgol am fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, iach ac hyderus, creadigol a mentrus a moesol a gwybodus.


Maent wedi dangos esiampl i bawb arall yn eu hymddygiad, yn eu gwaith ac am gyfrannu at eu cymuned. Ardderchog!

**Pei Stwnsh!**
Hyfryd oedd gweld dau o'n disgyblion yn ymddangos ar sioe Stwnsh Sadwrn yn ddiweddar - hyd yn oed yn well oedd gweld Evie ac Ellis yn derbyn Pei Stwnsh!






## Nofelau Haf o Ddarllen





**Brodorion**
Ifan Morgan Jones
Nofel gyffrous am griw o Gymry'n hwylio i ynys anhysbys i sefydlu Cymru newydd.
9781800990364 Y Lolfa




**Bedydd Tân**
Dyfed Edwards
Mae newyddiadurwr sydd â'i fywyd ar chwâl yn mynnu cyfiawnder ar ôl i ŵr ifanc gael ei gyhuddo o lofruddiaeth. *A*
9781913996161 Gwasg y Bwthyn










**Y Gwynt Braf**
Gwyn Parry
Nofel atgofus sy'n rhoi portread cynnes o berthynas mam a mab.
9781845278038 Carreg Gwalch




**Yr Eneth Gadd ei Gwrthod**
Gwen Parrott
Ar ddiwedd noson mewn clwb nos, mae Mererid yn darganfod ei hun yng nghanol dirgelwch – neu hunllef?
9781912173433 Gwasg y Bwthyn




**Safana**
Jerry Hunter
Nofel sy'n ailddychmygu hanes caethwasiaeth yn Georgia trwy lygaid Grasi, ysbîwr ifanc.
9781800990395 Y Lolfa




**Tu ôl i'r Llenni**
Eirlys Jones
Nofel yn seiliedig ar fywyd merched yn Eifionydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
9781845277932 Carreg Gwalch